Child of the new Century

NatCen
National Centre for Social Research

Plentyn y Ganrif Newydd
Arolwg 5 Oed

Mae'r Athrofa Addysg wedi comisiynu'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Cymdeithasol i gynnal arolwg am fywydau plant yn yr 21ain Ganrif. Enw'r arolwg yw *Plentyn y Ganrif Newydd.*

Mae'r plentyn a enwir isod yn rhan o'r astudiaeth hon. Mae rhieni'r plentyn hwn wedi rhoi eu caniatâd ysgrifenedig i ni estyn gwahoddiad i chi lenwi'r holiadur athro hwn.

Caiff yr holl wybodaeth a rowch ei thrin yn hollol gyfrinachol yn unol â'r Ddeddf Gwarchod Data a chaiff ei defnyddio at ddibenion ymchwil yn unig. Ni chaiff unrhyw ran o'r wybodaeth a rowch ei throsglwyddo i'r plentyn na'i rieni.

Atebwch y cwestiynau am y plentyn a enwir isod. Dylai'r holiadur gymryd 15-20 munud i'w chwblhau. Os oes angen unrhyw gymorth arnoch neu os oes gennych unrhyw gwestiynau gallwch ffonio'r tîm ymchwil ar **0800 783 5890**.

SN	001-009	CN=2	016	SEX	028
CHK	010	MN	017-018	BATCH	029-033
SP	011	V=4	019	SP	034-050
PT	012-015	DOB	020-027		

Ynglŷn â'r Holiadur

Mae'r holiadur yn holi ynghylch gallu'r plentyn mewn chwe gwahanol faes dysgu. Gofynnir y cwestiynau hyn er mwyn cael cipolwg o gynnydd plentyn yn y maes dysgu hwn. Caiff tri o'r meysydd eu rhannu ymhellach yn is-grwpiau ac mae gwahanol raddfeydd asesu ar gyfer pob un ohonynt.

- **Datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol** (Cymeriad ac agweddau; Datblygiad cymdeithasol; Datblygiad emosiynol).
- **Cyfathrebu, iaith a llythrennedd** (Cyfathrebu, iaith a llythrennedd; cysylltu seiniau a llythrennau; darllen ac ysgrifennu).
- **Datblygiad mathemategol** (Rhifau fel labeli ac i rifo; Cyfrifo; Siâp, gofod a mesurau).
- **Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd.**
- **Datblygiad corfforol.**
- **Datblygiad creadigol.**

Mae naw cwestiwn gan bob un o'r 13 graddfa asesu. Mae pob cwestiwn yn disgrifio gallu. Gofynnir i chi ddweud a yw'r plentyn wedi cyflawni'r gallu hwn ai peidio.

Mae'r tri chwestiwn cyntaf yn disgrifio plentyn sydd mewn cyfnod cynnar yn ei ddysgu yn y maes hwn. Bydd y rhan fwyaf o blant wedi cyflawni pob un o'r tri gallu hwn, ond bydd rhai eithriadau i'r patrwm hwn.

Cyflwynir y pum cwestiwn nesaf yn nhrefn fras anhawster. Fodd bynnag, nid yw'r galluoedd yn hierarchaidd o reidrwydd a gall plentyn gyflawni un o'r galluoedd diweddarach heb ei fod wedi cyflawni rhai neu'r cyfan o'r rhai cynharach.

Mae'r cwestiwn terfynol ym mhob graddfa'n disgrifio plentyn sydd wedi cyflawni pob un o'r galluoedd o 1–8 ar y raddfa honno, wedi datblygu ymhellach o ran ehangder a dyfnder, ac yn gweithio'n gyson y tu hwnt i'r galluoedd blaenorol.

Ar gyfer nifer fechan o blant ag anghenion addysgol arbennig, efallai na fydd yn bosibl gwneud asesiad.

Sut i ateb y cwestiynau

I lenwi'r holiadur dylid ystyried pob cwestiwn ar wahân. Ar gyfer pob cwestiwn, dylid llunio barn sy'n cynrychioli eich asesiad o gyrhaeddiad nodweddiadol y plentyn; hynny yw, er bod ymddygiad plentyn yn amrywio rywfaint o un dydd i'r llall ac o un cyd-destun i'r llall efallai, yr asesiad a wneir yw'r disgrifiad gorau o gyflawniad y plentyn.

Darllenwch bob cwestiwn yn ofalus. Ticiwch 'ydy' neu 'nac ydy' i nodi a yw'r plentyn wedi cyflawni'r gallu. Gellir ateb pob cwestiwn drwy dicio'r blwch wrth ymyl yr ateb sy'n berthnasol i'r plentyn.

	Ydy	Nac Ydy
1. Mae'n dangos diddordeb mewn gweithgareddau dosbarth drwy arsylwi neu gyfranogi.	☑	☐

Os gwnewch gamgymeriad, tynnwch linell drwy'r ateb anghywir a rhowch dic yn y blwch wrth ymyl yr ateb, fel hyn:

	Ydy	Nac Ydy
1. Mae'n dangos diddordeb mewn gweithgareddau dosbarth drwy arsylwi neu gyfranogi.	~~☑~~	☑

Gallwch adael unrhyw gwestiwn nad ydych eisiau ei ateb, gadewch y blwch yn wag.

1. DATBLYGIAD PERSONOL, CYMDEITHASOL AC EMOSIYNOL

Mae'r maes dysgu hwn yn ymwneud â lles emosiynol, gwybod pwy ydych chi a ble mae'ch lle chi a theimlo'n dda am eich hun.

a. Cymeriad ac agweddau

		Ydy 1	Nac Ydy 2	
1	Mae'n dangos diddordeb mewn gweithgareddau dosbarth drwy arsylwi neu gyfranogi.	☐	☐	051
2	Mae'n gwisgo, dadwisgo, ac yn rheoli ei hylendid personol ei hun gyda chefnogaeth oedolyn.	☐	☐	052
3	Mae'n dangos lefelau uchel o ymglymiad mewn gweithgareddau y mae'n eu dewis ei hun.	☐	☐	053
4	Mae'n gwisgo ac yn dadwisgo'n annibynnol ac yn rheoli ei hylendid personol ei hun.	☐	☐	054
5	Mae'n dewis ac yn defnyddio gweithgareddau ac adnoddau'n annibynnol.	☐	☐	055
6	Mae ei ddiddordeb a'i gymhelliant yn parhau, ac mae'n awyddus i ddysgu o hyd.	☐	☐	056
7	Mae'n hyderus i roi cynnig ar weithgareddau newydd, cyfrannu syniadau, a siarad mewn grŵp cyfarwydd.	☐	☐	057
8	Mae'n cynnal sylw ac yn canolbwyntio.	☐	☐	058
9	Mae'n cynnal ymglymiad ac yn dyfalbarhau, yn enwedig wrth geisio datrys problem neu ddod i gasgliad boddhaol.	☐	☐	059

Trowch drosodd →

1. DATBLYGIAD PERSONOL, CYMDEITHASOL AC EMOSIYNOL

b. Datblygiad cymdeithasol

		Ydy 1	Nac Ydy 2	
1	Mae'n chwarae gydag eraill.	☐	☐	060
2	Mae'n meithrin perthnasoedd drwy ystumio a siarad.	☐	☐	061
3	Mae'n cymryd ei dro ac yn rhannu gyda chefnogaeth oedolyn.	☐	☐	062
4	Mae'n gweithio fel rhan o grŵp neu ddosbarth, yn cymryd ei dro ac yn rhannu'n deg.	☐	☐	063
5	Mae'n ffurfio perthnasoedd da gydag oedolion a chyfoedion.	☐	☐	064
6	Mae'n deall bod angen cael gwerthoedd cytunedig a chodau ymddygiad i grwpiau o bobl, gan gynnwys oedolion a phlant, i gydweithio'n gytûn.	☐	☐	065
7	Mae'n deall bod gan bobl wahanol anghenion, barnau, diwylliannau a chredoau y mae angen eu parchu.	☐	☐	066
8	Mae'n deall y gall ddisgwyl i eraill barchu ei anghenion, ei farnau, ei ddiwylliannau a'i gredoau ei hun.	☐	☐	067
9	Mae'n ystyried syniadau pobl eraill.	☐	☐	068

1. DATBLYGIAD PERSONOL, CYMDEITHASOL AC EMOSIYNOL

c. Datblygiad emosiynol

		Ydy 1	Nac Ydy 2	
1	Mae'n gwahanu wrth y prif ofalwr gyda chefnogaeth.	☐	☐	069
2	Mae'n cyfathrebu'n rhwydd am gartref a'r gymuned.	☐	☐	070
3	Mae'n mynegi anghenion a theimladau mewn ffyrdd priodol.	☐	☐	071
4	Mae'n ymateb i brofiadau arwyddocaol, gan ddangos ystod o deimladau pan fo'n briodol.	☐	☐	072
5	Mae ganddo/ganddi ymwybyddiaeth ddatblygol am anghenion, barnau a theimladau ei hun ac mae'n sensitif i anghenion, barnau a theimladau eraill.	☐	☐	073
6	Mae ganddo/ganddi barch datblygol i'w ddiwylliant a'i gredoau ei hun a rhai pobl eraill.	☐	☐	074
7	Mae'n ystyried canlyniadau geiriau a gweithredoedd i'w hun ac eraill.	☐	☐	075
8	Mae'n deall beth sy'n gywir a beth sy'n anghywir, a pham.	☐	☐	076
9	Mae'n dangos ymdeimlad cryf a chadarnhaol o hunaniaeth a gall fynegi ystod o emosiynau yn rhugl ac yn briodol.	☐	☐	077

Trowch drosodd →

2. CYFATHREBU, IAITH A LLYTHRENNEDD

Mae'r maes dysgu hwn yn cynnwys cyfathrebu, siarad a gwrando mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion, gwrando ar ystod eang o lyfrau yn cael eu darllen a darllen testunau syml, ac ysgrifennu at amryw ddibenion.

a. Iaith ar gyfer cyfathrebu a meddwl

		Ydy 1	Nac Ydy 2	
1	Mae'n gwrando ac yn ymateb.	☐	☐	078
2	Mae'n dechrau cyfathrebu ag eraill, gan ddangos mwy o hyder mewn cyd-destunau llai ffurfiol.	☐	☐	079
3	Mae'n trafod gweithgareddau, gan fyfyrio ynghylch gweithredoedd ac yn eu haddasu.	☐	☐	080
4	Mae'n mwynhau gwrando ar straeon, caneuon, rhigymau a cherddi; mae'n gwrando'n astud yn barhaus ac yn ymateb gyda sylwadau, cwestiynau neu weithredoedd perthnasol.	☐	☐	081
5	Mae'n defnyddio iaith i ddychmygu ac i ail-greu rolau a phrofiadau.	☐	☐	082
6	Mae'n rhyngweithio gydag eraill mewn amryw gyd-destun; mae'n cyd-drafod cynlluniau a gweithgareddau; mae'n cymryd ei dro mewn sgwrs.	☐	☐	083
7	Mae'n defnyddio siarad er mwyn trefnu ac egluro meddyliau, syniadau, teimladau, a digwyddiadau; mae'n archwilio ystyron a seiniau geiriau newydd.	☐	☐	084
8	Mae'n siarad yn glir gyda hyder a rheolaeth; mae'n dangos ymwybyddiaeth am y gwrandäwr.	☐	☐	085
9	Mae'n siarad ac yn gwrando'n hyderus a chyda rheolaeth, gan ddangos ymwybyddiaeth gyson am y gwrandäwr drwy gynnwys manylion perthnasol. Mae'n defnyddio iaith i ddod i ddeall ac egluro syniadau, gan ddangos rheolaeth ar ystod o eirfa briodol.	☐	☐	086

2. CYFATHREBU, IAITH A LLYTHRENNEDD

b. Cysylltu seiniau a llythrennau

		Ydy 1	Nac Ydy 2	
1	Mae'n cymryd rhan mewn gweithgareddau odli a rhythmig.	☐	☐	087
2	Mae'n dangos ymwybyddiaeth am odl a chyflythreniad.	☐	☐	088
3	Mae'n cysylltu rhai seiniau a llythrennau.	☐	☐	089
4	Mae'n cysylltu seiniau â llythrennau, yn enwi ac yn seinio llythrennau'r wyddor	☐	☐	090
5	Mae'n clywed ac yn dweud seiniau cychwynnol a therfynol mewn geiriau.	☐	☐	091
6	Mae'n clywed ac yn dweud seiniau llafariad mewn geiriau.	☐	☐	092
7	Mae'n defnyddio gwybodaeth ffonig i ddarllen geiriau syml a rheolaidd.	☐	☐	093
8	Mae'n ceisio darllen geiriau mwy cymhleth, gan ddefnyddio gwybodaeth ffonig.	☐	☐	094
9	Mae'n defnyddio gwybodaeth am lythrennau, seiniau a geiriau wrth ddarllen ac ysgrifennu'n annibynnol.	☐	☐	095

Trowch drosodd →

2. CYFATHREBU, IAITH A LLYTHRENNEDD

c. Darllen

		Ydy 1	Nac Ydy 2	
1	Mae'n datblygu diddordeb mewn llyfrau.	☐	☐	096
2	Mae'n gwybod bod print yn cyfleu ystyr.	☐	☐	097
3	Mae'n adnabod ychydig o eiriau cyfarwydd.	☐	☐	098
4	Mae'n gwybod bod print, yn Gymraeg, Saesneg neu Wyddeleg, yn cael ei ddarllen o'r chwith i'r dde ac o'r brig i'r gwaelod.	☐	☐	099
5	Mae'n dangos dealltwriaeth o elfennau straeon, fel prif gymeriad, trefn digwyddiadau, ac agoriadau.	☐	☐	100
6	Mae'n darllen ystod o eiriau cyfarwydd a chyffredin a brawddegau syml yn annibynnol.	☐	☐	101
7	Mae'n ailadrodd naratifau yn y drefn gywir, gan dynnu ar batrymau iaith straeon.	☐	☐	102
8	Mae'n deall sut y gellir cael gwybodaeth o destunau ffeithiol i ateb cwestiynau am ble, pwy, sut a pham.	☐	☐	103
9	Mae'n darllen llyfrau o'i ddewis ei hun gyda pheth rhuglder a chywirdeb.	☐	☐	104

ch. Ysgrifennu

		Ydy 1	Nac Ydy 2	
1	Mae'n arbrofi â chymysgu marciau, weithiau'n priodoli ystyr i'r marciau.	☐	☐	105
2	Mae'n defnyddio rhai llythrennau y gellir eu hadnabod yn glir i gyfathrebu ystyr.	☐	☐	106
3	Mae'n cynrychioli rhai seiniau'n gywir mewn ysgrifen.	☐	☐	107
4	Mae'n ysgrifennu ei enw ei hun a geiriau eraill o'r cof.	☐	☐	108
5	Mae'n dal pensil ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol i ffurfio llythrennau y gellir eu hadnabod, ac y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u ffurfio'n gywir.	☐	☐	109
6	Mae'n ceisio ysgrifennu at amryw ddibenion, gan ddefnyddio nodweddion gwahanol ffurfiau.	☐	☐	110
7	Mae'n defnyddio gwybodaeth ffonig i ysgrifennu geiriau syml ac yn gwneud ymdrechion seinegol credadwy i ysgrifennu geiriau mwy cymhleth.	☐	☐	111
8	Mae'n dechrau ffurfio penawdau a brawddegau syml, weithiau drwy ddefnyddio atalnodi.	☐	☐	112
9	Mae'n cyfathrebu ystyr drwy ymadroddion a brawddegau syml gyda pheth cysondeb yn atalnodi brawddegau.	☐	☐	113

Trowch drosodd →

3. DATBLYGIAD MATHEMATEGOL

Mae'r maes dysgu hwn yn cynnwys rhifo, trefnu, paru, chwilio am batrymau, gwneud cysylltiadau, adnabod perthnasoedd a gweithio gyda rhifau, siapau, gofod a mesurau.

a. Rhifau fel labeli ac i rifo

		Ydy 1	Nac Ydy 2	
1	Mae'n dweud enwau rhai rhifau mewn cyd-destunau cyfarwydd, er enghraifft mewn hwiangerddi.	☐	☐	114
2	Mae'n rhifo'n ddibynadwy hyd at dri pheth cyffredin.	☐	☐	115
3	Mae'n rhifo'n ddibynadwy hyd at chwe pheth cyffredin.	☐	☐	116
4	Mae'n dweud enwau rhifau mewn trefn.	☐	☐	117
5	Mae'n adnabod rhifau 1 i 9.	☐	☐	118
6	Mae'n rhifo'n ddibynadwy hyd at 10 peth cyffredin.	☐	☐	119
7	Mae'n trefnu rhifau hyd at 10.	☐	☐	120
8	Mae'n defnyddio syniadau a dulliau mathemategol datblygol i ddatrys problemau ymarferol.	☐	☐	121
9	Mae'n adnabod, rhifo, trefnu, ysgrifennu ac yn defnyddio rhifau hyd at 20.	☐	☐	122

b. Cyfrifo

		Ydy 1	Nac Ydy 2	
1	Mae'n ymateb i'r eirfa sy'n gysylltiedig ag adio a thynnu mewn rhigymau a gemau.	☐	☐	123
2	Mae'n adnabod gwahaniaethau mewn maint wrth gymharu setiau o wrthrychau.	☐	☐	124
3	Mae'n dod o hyd i un yn fwy neu un yn llai o grŵp hyd at bum gwrthrych.	☐	☐	125
4	Mae'n cysylltu adio â chyfuno dau grŵp.	☐	☐	126
5	Mae'n cysylltu tynnu â thynnu i ffwrdd.	☐	☐	127
6	Mewn gweithgareddau ymarferol a thrafodaethau, mae'n dechrau defnyddio geirfa sy'n gysylltiedig ag adio a thynnu.	☐	☐	128
7	Mae'n dod o hyd i un yn fwy neu'n llai na rhif o 1 i 10.	☐	☐	129
8	Mae'n defnyddio syniadau a dulliau mathemategol datblygol i ddatrys problemau ymarferol.	☐	☐	130
9	Mae'n defnyddio ystod o strategaethau ar gyfer adio a thynnu, gan gynnwys rhywfaint o atgofio bondiau rhif.	☐	☐	131

Trowch drosodd →

c. Siâp, gofod a mesurau

		Ydy 1	Nac Ydy 2	
1	Mae'n arbrofi gydag ystod o wrthrychau a deunyddiau gan ddangos peth ymwybyddiaeth fathemategol.	☐	☐	132
2	Mae'n trefnu neu'n paru gwrthrychau ac yn siarad am drefnu.	☐	☐	133
3	Mae'n disgrifio siapau mewn modelau, lluniau a phatrymau syml.	☐	☐	134
4	Mae'n siarad am batrymau syml, yn eu hadnabod a'u hail-greu.	☐	☐	135
5	Mae'n defnyddio geiriau bob dydd i ddisgrifio safle.	☐	☐	136
6	Mae'n defnyddio iaith fel 'cylch' neu 'mwy' i ddisgrifio siâp a maint solidau a siapau gwastad.	☐	☐	137
7	Mae'n defnyddio iaith fel 'mwy', 'llai', 'trymach', neu 'ysgafnach' i gymharu meintiau.	☐	☐	138
8	Mae'n defnyddio syniadau a dulliau mathemategol datblygol i ddatrys problemau ymarferol.	☐	☐	139
9	Mae'n defnyddio iaith fathemategol i ddisgrifio gwrthrychau solid (3D) a siapau gwastad (2D).	☐	☐	140

4. GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH O'R BYD

Yn y maes dysgu hwn mae plant yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth hanfodol sy'n eu helpu i wneud synnwyr o'r byd.

		Ydy 1	Nac Ydy 2	
1	Mae'n dangos chwilfrydedd a diddordeb drwy archwilio'r hyn sydd o'i gwmpas.	☐	☐	141
2	Mae'n gwylio, yn dewis ac yn trin gwrthrychau a deunyddiau. Mae'n adnabod nodweddion syml a digwyddiadau personol arwyddocaol.	☐	☐	142
3	Mae'n adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau amlwg wrth archwilio ac arsylwi. Mae'n creu mewn ffordd bwrpasol, gan ddefnyddio offer a thechnegau syml.	☐	☐	143
4	Mae'n ymchwilio i fannau, gwrthrychau, deunyddiau a phethau byw drwy ddefnyddio'r holl sefyllfaoedd fel sy'n briodol. Mae'n adnabod rhai nodweddion ac yn siarad am nodweddion y mae'n ei hoffi a'r rhai nad yw'n ei hoffi.	☐	☐	144
5	Mae'n holi pam y mae pethau'n digwydd a sut y mae pethau'n gweithio. Mae'n edrych yn agos ar debygrwydd, gwahaniaethau, patrymau a newidiadau.	☐	☐	145
6	Mae'n darganfod digwyddiadau presennol a gorffennol yn ei fywyd ei hun, ac ym mywydau aelodau teulu a phobl eraill mae'n eu hadnabod. Mae'n dechrau gwybod am ei ddiwylliant a'i gredoau ei hun a phobl eraill.	☐	☐	146
7	Mae'n darganfod defnyddiau technegau bob dydd ac yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a theganau rhaglenadwy i gefnogi dysgu.	☐	☐	147
8	Mae'n adeiladu ac yn creu gydag ystod eang o wrthrychau, gan ddewis adnoddau, offer a thechnegau priodol, ac yn addasu ei waith/ei gwaith pan fo angen.	☐	☐	148
9	Mae'n cyfathrebu cynlluniau syml ar gyfer ymchwiliadau a lluniadau ac yn gwneud cofnodion a gwerthusiadau syml o'i waith/ei gwaith. Mae'n adnabod ac yn enwi nodweddion a phriodweddau allweddol, weithiau'n cysylltu gwahanol brofiadau, arsylwadau a digwyddiadau. Mae'n dechrau archwilio beth mae'n ei olygu i berthyn i amrywiaeth o grwpiau a chymunedau.	☐	☐	149

Trowch drosodd →

5. DATBLYGIAD CORFFOROL

Mae'r maes dysgu hwn yn ymwneud â gwella sgiliau cydsymud, rheolaeth, trin a thrafod a symud. Mae hefyd yn helpu plant i fagu hyder yn yr hyn y gallant ei wneud ac yn eu galluogi i deimlo'r manteision cadarnhaol a ddaw o fod yn iachus ac yn weithgar.

		Ydy 1	Nac Ydy 2	
1	Mae'n symud yn ddigymell, gan ddangos peth rheolaeth a chydsymudiad.	☐	☐	150
2	Mae'n symud yn hyderus mewn sawl ffordd, gan ddangos peth ymwybyddiaeth am ofod.	☐	☐	151
3	Mae fel arfer yn dangos rheolaeth briodol mewn symudiadau mawr a bach.	☐	☐	152
4	Mae'n symud yn hyderus, yn ddychmygus ac yn ddiogel. Mae'n teithio o amgylch, o dan, dros a thrwy offer cydbwysedd a dringo. Mae'n dangos ymwybyddiaeth am ofod ei hun ac eraill.	☐	☐	153
5	Mae'n dangos rheolaeth a chydsymudiad echddygol manwl.	☐	☐	154
6	Mae'n defnyddio offer bach a mawr, gan ddangos ystod o sgiliau sylfaenol.	☐	☐	155
7	Mae'n trafod offer, gwrthrychau, deunyddiau creu a hydrin yn ddiogel gyda rheolaeth sylfaenol.	☐	☐	156
8	Mae'n cydnabod pwysigrwydd cadw'n iachus a'r pethau hynny sy'n cyfrannu at hyn. Mae'n cydnabod y newidiadau sy'n digwydd i'w gorff/ei chorff pan yn weithgar.	☐	☐	157
9	Mae'n ailadrodd, yn cysylltu ac yn addasu symudiadau syml, weithiau'n rhoi sylwadau am ei waith/ei gwaith. Mae'n dangos cydsymudiad a rheolaeth mewn symudiadau mawr a bach, ac wrth ddefnyddio ystod o offer a chyfarpar.	☐	☐	158

6. DATBLYGIAD CREADIGOL

Mae'r maes dysgu hwn yn cynnwys celf, cerddoriaeth, dawns, chwarae rôl a chwarae dychmygus.

		Ydy 1	Nac Ydy 2	
1	Mae'n archwilio gwahanol gyfryngau ac yn ymateb i amrywiaeth o brofiadau synhwyraidd. Mae'n ymgymryd â chwarae cynrychiadol.	☐	☐	159
2	Mae'n creu cynrychiolaeth seml o ddigwyddiadau, pobl a gwrthrychau ac yn ymgymryd â gwneud cerddoriaeth.	☐	☐	160
3	Mae'n ceisio cyfleu profiadau drwy ddefnyddio amrywiaeth o wahanol gyfryngau.	☐	☐	161
4	Mae'n canu caneuon syml o'r cof.	☐	☐	162
5	Mae'n archwilio lliw, gwead, siâp, ffurf a gofod mewn dau neu dri dimensiwn.	☐	☐	163
6	Mae'n cydnabod ac yn archwilio sut y gellir newid seiniau. Mae'n adnabod seiniau a ailadroddir a phatrymau sain ac yn cydweddu symudiadau â cherddoriaeth.	☐	☐	164
7	Mae'n defnyddio dychymyg mewn celf a dylunio, cerddoriaeth, dawns, chwarae dychmygus a chwarae rôl, a straeon. Mae'n ymateb mewn amryw ffyrdd i'r hyn y mae'n ei weld, clywed, arogli, cyffwrdd a theimlo.	☐	☐	165
8	Mae'n mynegi ac yn cyfathrebu syniadau, meddyliau a theimladau drwy ddefnyddio ystod o ddeunyddiau, offer addas, chwarae dychmygus a chwarae rôl, symudiad, dylunio a gwneuthur, ac amrywiaeth o ganeuon ac offerynnau cerdd.	☐	☐	166
9	Mae'n mynegi teimladau a hoffterau mewn ymateb i waith celf, drama, a cherddoriaeth ac yn gwneud rhai cymariaethau a chysylltiadau rhwng gwahanol ddarnau. Mae'n ymateb i'w waith ei hun a gwaith eraill wrth archwilio a chyfathrebu syniadau, teimladau a hoffterau drwy gelf, cerddoriaeth, dawns, chwarae rôl a chwarae dychmygus.	☐	☐	167

Trowch drosodd →

Diolch yn fawr iawn am roi o'ch amser i ateb ein cwestiynau. Cwblhewch y manylion isod a dychwelyd eich holiadur yn yr amlen barod a ddarperir.

1 P'un o'r canlynol sy'n disgrifio gallu'r plentyn yn Gymraeg orau: 168

Rhugl yn Gymraeg ☐ 1
Gall siarad lawer o Gymraeg ☐ 2
Gall siarad ychydig Gymraeg ☐ 3
Gall ddweud dim ond ychydig eiriau yn Gymraeg ☐ 4
Nid yw'n siarad Cymraeg ☐ 5
Ddim yn gwybod ☐ 6

SP169

2 Nodwch ym mha iaith y caiff y plentyn ei addysg. 170-171

Cymraeg yn unig ☐ 01
Cymraeg yn bennaf ☐ 02
Yr un faint o Gymraeg a Saesneg yn fras ☐ 03
Saesneg yn bennaf ☐ 04
Saesneg yn unig ☐ 05
Arall (nodwch) ☐ 06

Eich enw	Dyddiad cwblhau
	␣␣ ␣␣ ␣␣ ␣␣ ␣␣␣␣
172-231	232-239

Enw'r ysgol
240-399

Bydd eich holl atebion yn parhau'n gyfrinachol.

Ffoniwch **Rhadffôn 0800 783 5890** os oes gennych unrhyw ymholiad.